**<u>Pwyllgor Diwylliant - CC-3-02(p.3)</u>**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 23 Ionawr 2002 |
| **Amser:** | 9.15am -12.45pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Gelfyddydau'r Miwni, Pontypridd |

## Taflen Wybodaeth Gwobr Dug Caeredin

**Cefndir** Datblygodd y Tywysog Philip syniadau ag athroniaeth Kurt Hahn, ei athro yn Gordonstown, a lawnsiodd Wobr Dug Caeredin fel rhaglen o weithgareddau i bobl ifanc ym 1956.

**Nod**

Amcan Gwobr Dug Caeredin yw cynnig i bobl ifanc rhaglen bleserus, heriol a gwerthfawr o ddatblygiad personol sydd o'r ansawdd uchaf a'r ystod ehangaf. Mae'r Wobr yn broses addysg anffurfiol o ddatblygiad personol a chymdeithasol. Mae'n cyflwyno'r cyfranogwyr i gyfleoedd newydd, ac yn caniatau iddynt ddysgu o'u profiadau ac yn rhoi cyfle iddynt ddarganfod sgiliau a diddordebau newydd.

Mae yna dair Gwobr

Efydd (I'r rheiny dros 14 oed) – o leiaf 6 mis

Arian (I'r rheiny dros 15 oed) – o leiaf 12 mis

Aur (I'r rheiny dros 16 oed) – o leiaf 18 mis

- Gwasanaeth: i annog gwasanaeth i unigolion ac i'r gymuned
- Sgiliau: i annog darganfyddiad a datblygiad diddordebau personol a sgiliau cymdeithasol ac ymarferol
- Adloniant Corfforol: i annog cyfranogiad a gwelliant mewn gweithgareddau corfforol a gwella perfformiad.
- Taith Antur: i annog ysbryd o antur a darganfyddiad

Mae gofyniad ychwanegol i'r lefel Aur:

- Prosiect Preswyl - i helaethu profiad trwy gyfranogiad ag eraill mewn cyd-destun preswyl.

**Egwyddorion y Wobr**

Blaengar Cytbwys Hyblyg

Anghystadleuol Cyrhaeddiad Canolbwyntiedig Mwynhâd

Ar gael i Bawb Marathon, nid Gwib

Gwirfoddol Datblygiad Personol

**Cyflwyniad**

Rwy'n sylwi o edrych ar y llenyddiaeth ynglyn a'r broses hon, fod y mwyafrif o'r mudiadau a gyflwyna dystiolaeth yn draddodiadol Gymreig ac yn defnyddio'r Gymraeg fel prif iaith eu busnes. Hoffwn bwysleisio felly fod yr hyn a gyflwynir gan Wobr Dug Caeredin yn gamp o fath gwahanol. Fel mudiad sy'n gweithredu dros y Deyrnas Unedig ac yn Rhyngwladol, roedd ar brydiau yn frwydr i Swyddfa Cymru i sicrhau fod yr Iaith Gymraeg yn cael yr un statws a'r Saesneg wrth gynllunio deunydd a llenyddiaeth. Serch hynny gallwn ennill o brofiad y mudiad o ran gweithredu mewn peuoedd amlieithog ac amlddiwylliant.

Mae'r Wobr yn gweithio gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o leoedd, lleoedd na fydd mudiadau ieuenctid eraill, heb son am rai dwyieithog, fel arfer yn gallu eu cyrraedd. Mae yna fynediad i bobl ifanc at y Wobr mewn ysgolion, colegau, clybiau a chanolfannau ieuenctid, carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc, prifysgolion, yn y gweithle, mewn ardaloedd gweldig yn ogystal ardaloedd dinesig. Mae'r Wobr yn cydweithio a phob Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn ogystal a'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol. Mae'r twf mewn cyfranogi yn y blynyddoedd diweddar yn adlewyrchu'n ymrwymiad i estyn cyrraedd y Wobr.

| Blwyddyn | Nifer Cyfranogwyr Newydd | Yn adlewyrchu cyfranogiad o |
|---|---|---|
| 1985/6 | 1419 | 3547 |
| 1990/1 | 4039 | 10097 |

| | | |
|---|---|---|
| 1995/6 | 3353 | 8382 |
| 2000/1 | 6698 | 16745 |

Mae'r Ddogfen 'Estyn Hawliau' yn son am estyn mynediad pobl ifanc at gyfleoedd cyffrous a heriol. Mae hyn yn cyd fynd a nod y Wobr yn ogystal a'r Cynllun strategol. Ein nod yw egluro sut yr ydym ni yn estyn cyfleoedd i bobl ifanc a'r gymuned i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Wobr yn eu dewis iaith.

Byddwn yn talu sylw arbennig i'r themau canlynol:

**galluogi pobl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy ymhob agwedd o fywyd cenedlaethol ac yn eu cymunedau**

- Caiff pobl ifanc dystysgrif wrth gwblhau adrannau'r o'r Wobr yn ogystal ag wrth gwblhau'r Wobr. Cynhyrchir y tysysgrifau i gyd yn ddwyieithog.
- Ym 1990 cafodd pecynnau mynediad Cymraeg eu darparu ar gyfer pobl ifanc a oedd yn ymuno a'r Wobr. Yn ystod 2000 datblygwyd pecynnau mynediad newydd drwy'r Deyrnas Unedig. Fe ddatblygwyd pecyn dwyieithog ar gyfer pobl ifanc Cymru i gyd fynd a 'r datblygaid hwn. Mae pob pecyn mynediad a werthir yng Nghymru nawr yn ddwyieithog.
- Mae'r Wobr yn cyhoeddi pob adnodd yn ddwyieithog yng Nghymru. Mae taflenni i gyfranogwyr, arweinwyr a rhieni ar gael.Mae'r safon yn uchel ar ar yr un gwedd a'r taflenni Saesneg. Ceir posteri, taflenni a llyfrynnau.
- Cynhoeddir Dogfennai Polisi'n ddwyieithog.
- Ym 1995 cyhoeddwyd y fideo cyntaf gan y Wobr drwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn hyn mae fideos a CD-ROMs yn cael eu datblygu'n ddwyieithog o'r dechrau.

**cefnogi Cymraeg fel iaith y teulu a'r Gymuned**

- Rydym wedi datblygu Pecyn Dysgu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3, gyda'r nod o gyflwyno'r Wobr iddynt. Mae'r pecyn yn caniatai i'r disgyblion weld y Gymraeg y maent yn dysgu yn y dosbarth fel iaith sy'n cael ei defnyddio yn y gymuned. Gallai'r Wobr gael ei defnyddio i annog pobl ifanc i wirfoddoli a chyfranogi o fewn y gymuned drwy ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol fel rhan o'u adran gwasanaeth. Mae hyn y galluogi pontio'r gagendor rhwng y Gymraeg yn yr ysgol a'r Gymraeg yn y gweithle. Gall athrawon yn yr ysgol gefnogi disgyblion i ddefnyddio Cymraeg fel rhan o'u

gweithgareddau hamdden y tu allan i'r ysgol.

- Mae'r Wobr yn rhaglen o weithgareddau i bobl ifanc sydd wedi ei becynnu'n barod, ac sy'n adnabyddus ac uchel ei pharch. Mae cyfle i'r Mentrau, Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, yn ogystal a mudiadau eraill megis y Geidiaid a'r Sgowtiaid i Urdd gofleidio rhaglen o weithgareddau i'w haelodau. Mae'r hyfforddiant i'r arweinwyr a'r bobl ifanc, yr adnoddau a'r rhaglen yn barod. Gallai'r Wobr helpu mudiadau i gadw aelodaeth dros 14 mlwydd oed oherwydd hyblygrwydd a lled y Wobr. Byddai'r gweithgareddau y maent eisioes yn eu gwneud yn gweddu i'r Wobr. Er enghraifft:

Gwasanaeth: Mentoriaid darllen gyda phlant o oed cynradd, helpu yn yr ysgol feithrin leol, arwain yr Adran leol, dysgu dosbarth ysgol Sul, Arweinyddiaeth Chwaraeon

Sgil: Chwarae Offeryn Cerdd, adrodd, aelod o gor, celfyddydau perfformio

Adloniant Corfforol: Cymryd rhan yn chwaraeon yr Urdd neu'r Ffermwyr Ifanc, chwarae rygbi i'r tim lleol, dawnsio gwerin

Taith Antur: teithio i wahanol rannau o Gymru a phrofi'r diwylliannau gwahanol

- Mae'n allweddol fod y strwythur economaidd ar gael i gefnogi'r Gymraeg fel iaith y gymuned, er mwyn galluogi'r rheiny sydd am fyw yn eu cymunedau i wneud hynny. Mae cyfranogwyr y Wobr yn defnyddio cefn gwlad megis sir Benfro, y Gwyr a Mynyddoedd y Cambrian yn gyson. Ar lefel Aur mae pobl ifanc yn cerdded yn helaeth ym Mannau Brycheiniog a Eryri. Mae rhifo cyfraniad y teithiau yma i'r economi leol yn adlewyrchu cyfraniad y Wobr. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael 6,000 o ymwelwyr drwy Wobr Dug Caeredin bob blwyddyn, ac mae Eryri yn derbyn 10,000 o ymwelwyr.

**darparu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg, a'i defnyddio**

- Gall dysgwyr o dan bump ar hugain mlwydd oed ddefnyddio 'Dysgu Iaith' o fewn yr Adran Sgiliau. Yn yr un adran gallai sgiliau iaith gael eu cryfhau drwy wneud 'Gwerthfawrogi Llenyddiaeth'.

- Mae digon o gyfle i oedolion, yn ddysgwyr a Chymru Cymraeg i wirfoddoli o fewn eu cymunedau a defnyddio'u Cymraeg i drosglwyddo sgiliau a phrofiadau gwerthfawr i'r bobl ifanc.

- Mae tystiolaeth yn dangos fod yna gyfartaledd o ran cyfranogiad o fewn y Wobr gan fechgyn a merched. Yng nghyfarfod rhanbarthol y cynulliad yn Aberhonddu ar Ragfyr 14eg nodwyd fod diffyg yn y nifer o fechgyn sy'n ymgymryd ag astudiaethau pellach mewn Cymraeg. Gallai'r Wobr fod yn gyfle i fechgyn ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol ac felly i barhau gwneud hynny wrth iddynt dyfu'n hyn.

- Mae rhaglen y Wobr yn eangfrydig ac yn cynnwys gweithgareddau ym mhob adran i gynnwys her a diddordeb. Byddai cymryd rhan yn y Wobr drwy gyfrwng y Gymraeg yn dod a'r iaith i beuoedd ieithyddol newydd.

**Hyrwyddo parch cyfartal tuag at y Gymraeg a'r Saesneg, a chynnal y consensws a'r ewyllys da cenedlaethol at ddwyieithrwydd**

- Mae defnydd o a datblygiad yr iaith Gymraeg o fewn Gwobr Dug Caeredin mae'r cynydd wedi bod yn gyson ac yn safonnol. Yn unol a'r ddihareb 'ara bach ma mynd ymhell' mae'r Wobr wedi derbyn cyngor, gwneud newidiadau a monitro'r sefyllfa; ond yn fwy na hynny wedi bod yn flaengar wrth hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith weithredol o fewn peuoedd y Wobr. Datblygodd y Wobr bolisi iaith ym 1993 yn unol ag argymhellion Deddf yr Iaith Gymraeg.

- Mae'r ganran o staff y swyddfa sy'n ddwyieithog ar 12/01 yn 50%. Mae'r staff i gyd wedi derbyn hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle. Rydym yn gallu derbyn pob modd o

gyfathrebu yn ddwyieithog yn y swyddfa’n Aberhonddu.

- Mae’r Wobr yng Nghymru wedi bod yn dra effeithiol wrth sefydlu cynlluniau pilot er mwyn cyflwyno’r defnydd o’r Gymraeg yn y lle cyntaf. Wrth yna ei ddilyn gan weithredu positif i gynnwys y Gymraeg ochr yn ochr a’r Saesneg. Dyma’r patrwm a ddefnyddiwyd gyda’r fideo a’r pecyn mynediad.

- Mae defnyddio technoleg fodern wedi galluogi’r Wobr i hybu’r adnoddau a mentrau cyfrwng Cymraeg. Mae manylion ar wefan y Wobr ynglyn a’r llenyddiaeth a’r dogfennau diweddaraf.

- Mae pob cerdyn busnes, papur ysgrifennu a deunyddiau marchnata yn ddwyieithog.

**Casgliad**

- Credaf fod yr her yno nawr i’r rheiny sy’n gallu defnyddio Cymraeg i ddefnyddio’r cyfoeth o adnoddau sy ar gael iddynt

- Mae’n bwysig i fudiad gwirfoddol mawr megis y Wobr, sy’n llwyddiannus yn cyrraedd pobl ifanc yn y llefydd a nodwyd, ac sy’n medru dod a gwir bersbectif dwyieithog gael eu cynnwys mewn trafodaethau ar blatform cenedlaethol.

- Mae’r gost o ddarparu adnoddau dwyieithog yn sylweddol ac yn aml yn cael ei dalu o goffrau’r Wobr yng Nghymru, ond mae cyllid yn dod hefyd o’n pencadlys y DU. Dengys hyn yr ymroddiad a wneir gan y mudiad i ymateb i anghenion holl bobl ifanc Cymru.